

hyder, ac mae'r bobl wedi lobio'r llywodraeth ranbarthol yn llwyddiannus am wasanaethau sylfaenol fel dŵr glan, trydan a ffyrdd. Mae Rohan, merch ifanc ddeallus, yn ymgorffori egni ac optimistaeth y gymuned, 'Rwy'n hoff iawn o'r awyrgylch yma. Mae popeth (yma) yn fy ngwneud yn hapus.'

Y llynedd, llwyddodd cannoedd o eglwysi i godi tua £500,000 yng Nghymru yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Bu'r arian yn help i roi bywyd yn rhydd o ofn i Anoon, Edile a Rohan, heb sôn am ddegau o filoedd eraill mewn amgylchiadau tebyg. Eleni, hoffem fynd gam ymhellach, a gwahodd pob eglwys yn ein gwlad i gymryd rhan - trwy roi a gweithredu a gweddio er mwyn helpu llawer mwy o bobl.

Gwefan

Mae lluniau o Pasg Efe, a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Llanrug, ddydd Llun, Ebrill 14 i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth ac ar wefan Cynllun Efe.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 11

10.15 a.m. - Ysgol Sul

2.00 p.m. - Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

Mai 18

10.00 a.m. - Oedfa Deulu

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 25

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Gwefan yr Ofalaeth yw
www.gronyn.org

Gwefan Cynllun Efe yw
www.cynllunefe.org

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mai 18: Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mai 18: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mrs Nerys Griffiths. Bydd yr Ysgol, Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 18: Ni fydd oedfa.

Nos Wener, Mai 16

-Dydd Sul, Mai 18:
Cwrs Plant yr Ofalaeth
yng Ngholeg y Bala

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

2.00 p.m. - Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mai 18

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffiths

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa

Mai 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 591 - Dydd Sul, 11 Mai, 2014

Tegwch

O na! Does gen ond dau funud i gyrraedd diwedd y golofn nesaf neu mi fyddaf wedi colli dechrau steddod fawr flynyddol Ewrop. Ydi mae'n noson yr 'Eurovision Song Contest' unwaith eto. Wn i ddim a wrandawa i ar y canu chwaith, ond rydw i'n edrych ymlaen at weld y marciau'n cael eu cyhoeddi.

Cystadleuaeth od ydi hon erbyn hyn, yn arbennig o safbwynt y cyfryngau Prydeinig sydd erbyn hyn wedi rhoi heibio pob gobaith o weld pwy bynnag sy'n cynrychioli'r gwledydd hyn yn dod i'r brig. Mae cyflwynwyr y BBC yn gwneud sbort o'r cyfan, yn rhannol mae'n debyg, am eu bod yn gwybod na fydd fawr o werthfawrogiad o'r gân Brydeinig.

Un peth sy'n sicr yw y bydd amryw o'r gwledydd yn rhoi'r marciau gorau i'w cymdogion daearyddol a'u cyfeillion gwleidyddol heno eto. Beth bynnag yw safon y gân, gallwch fentro y bydd y marciau llawn yn ddiogel. Hynny sy'n gwneud y canlyniadau ar ddiwedd y noson mor ddifyr, ac eto mor ddiflas hefyd. Mae ambell i gân dda yn siwr o gael marciau sâl, a mwy nag un wlad yn siwr o gael cam. A does dim yn sicrhach nag y bydd mwy nag un gân wael wedi cael marciau ardderchog. Peth felly yw'r steddod hon. Fydd yna fawr o degwch heno oherwydd y duedd i ffafrio cymdogion. Mae'n anodd meddwl bod tegwch yn bosib pan fydd rhai perfformwyr yn cael mwy na'u haeddiant ac eraill yn cael llawer llai na'u haeddiant hwy.

Onid ydi tegwch yn golygu bod pawb yn cael ei haeddiant? Ydi, fel arfer, wrth gwrs. Ac eto fel arall y mae hi efo'r Efengyl Gristnogol. Oherwydd neges fawr yr Efengyl yw bod Duw yn estyn maddeuant i bobl sydd ddim yn ei haeddu. Does yr un ohonom yn haeddu cariad Duw, ond fe'i cawn. Does yr un ohonom yn haeddu'r bywyd tragwyddol, ond fe'i cawn yn rhodd gan Dduw. Yr hyn a haeddwn yw cael ein gwrthod ganddo, ond nid dyna a gawn o gwbl os rhoddwn ein ffydd yn yr Arglwydd Iesu.

Ac er mwyn i ni gael yr hyn nad ydym yn ei haeddu roedd rhaid i Iesu hefyd gael yr hyn nad oedd ef yn ei haeddu. Nid oedd Iesu'n haeddu cael ei wrthod gan Dduw, ond dyna a gafodd er ein mwyn ni. A dyma fawredd a syndod yr Efengyl.

Ond gallech feddwl bod rhywbeth anghyfiawn yn hyn. Ac ar un ystyr, mae yna annhegwch yn y drefn hon. Nid oedd Iesu'n haeddu'r gosb a gafodd; nid oedd yn haeddu bod ar Galfaria. Dyna'r peth olaf yr oedd ef yn ei haeddu. Ond yr hyn sy'n gwneud trefn yr Efengyl yn deg a chyfiawn yw bod Duw o'i gariad yn rhoi ei Fab i farw drosom, a bod Iesu Grist ei hun yn fodlon ar y trefniant hwn. Mae Iesu o'i fodd yn ei roi ei hun yn aberth ar y groes. Mae'n fodlon cael cam. Mae'n fodlon derbyn yr hyn nad yw'n ei haeddu. Ac mae'n wynebu hynny er mwyn i ni gael yr hyn na haeddwn ni o gwbl.

Gofalaeth Unedig Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a chynhelir Cymanfa'r Annibynwyr am 2.00 o'r gloch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun. Bydd oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni, a diolchwn iddo am ei wasanaeth unwaith eto.

Gwasanaethir yn Llanberis am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Ni fydd Ysgol Sul ond cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun am 2.00 o'r gloch. Sylwch nad oedfa MOLI sydd gyda'r nos heno.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Dymunwn yn dda hefyd i bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn

o bryd, yn arbennig yr aelodau ffyddlon sy'n methu â dod i'r oedfaon y dyddiau hyn. Gwelwn eisiau'r ffyddloniaid sy'n methu dod atom o Sul i Sul.

Cymanfa

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr y cylch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun, am 2.00 o'r gloch bnawn heddiw, Mai 11.

Aelodau'r Ysgol Sul yn Neiniolen fydd yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth dechreuol a threfniadau'r te.

Bydd y Gymanfa yng ngofal Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug, a cheir anerchiad gan Andrew Settatre.

Edrychwch ymlaen at gael addoli Iesu Grist gyda'n gilydd y pnawn yma, felly.

Croeso cynnes i bawb.

Cwrs Plant yn y Bala

Mae'n bryd archebu lle ar gyfer Cwrs Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala ar gyfer plant 8–12 oed, sef plant Blwyddyn 3–6 yr ysgol (er bod croeso hefyd i blant Blwyddyn 7 ddod).

Byddwn yn mynd i'r Bala o nos Wener, Mai 16 hyd amser cinio dydd Sul, Mai 18.

Mae angen llenwi ffurflen ac anfon blaendal i'r Coleg mor fuan â phosibl ac felly a fedrwyd chi wneud yn siwr bod y ffurflenni yn cael eu dychwelyd mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.

Bydd plant Llanberis a Deiniolen yn rhannu'r penwythnos eleni eto gyda phlant Llanrug a Bethel a gobeithio'n fawr y cawn ni griw da unwaith eto.

Cymorth Cristnogol Mai 11–17

Mae'n Wythnos Cymorth Cristnogol o heddiw hyd nos Sadwrn nesaf, a gwneir y casgliad arferol o ddrws i ddrws yn Llanberis a Deiniolen eleni eto.

Os medrwyd roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

Fel y gwyddoch, mwya'n byd o bobl sydd gennym i helpu efo'r casglu, mwya'n byd o arian a gesglir.

Dyma ran o neges Cymorth Cristnogol ar gyfer yr wythnos hon.

Mae erchylltra rhyfel yn rhan o fywyd pob dydd i lawer iawn o bobl ar draws y byd. Ar hyn o bryd, yn sgil y trais dinistriol yn Syria ac yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, mae'r bobl sy'n cael eu gorfodi o'u cartrefi gan ryfel yn cynyddu'n ddyddiol, ac amcangyfrifir bod tua 42 miliwn yn wynebu'r sefyllfa hon erbyn hyn. Dyna ystadegegyn a ddylai ein dychryn ac sy'n staen ar gydwybod y ddynoliaeth.

Mae deunydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (Mai 11–17) yn rhoi sylw i storïau rhai o'r bobl hyn, ond yn sôn hefyd am yr hyn sy'n cael ei wneud i'w helpu.

Oherwydd y rhyfel cartref gwaedlyd yn Ne Swdan bu'n rhaid i Anoon Aleu ffoi i ogledd y wlad pan oedd hi'n blentyn. Pan ddaeth annibyniaeth i Dde Sudan gwnaeth hi a'i gŵr, Madut, y penderfyniad anodd i ddychwelyd i'w hen gartref er mwyn creu bywyd newydd i'r teulu. Prin eu bod yn disgwyl i bethau fod yn rhwydd yno, a bu'n rhaid wynebu calledi, prinder a'r profiad dirdynol o golli mab yn ystod yr wythnos gyntaf yn ôl. Clywodd un o fudiadau partner Cymorth Cristnogol am sefyllfa enbyd y teulu, a

rhoddwyd nwyddau sylfaenol i'w cynnal dros y tymor byr, ac arian i adeiladu cartref parhaol. Mae cael ei theulu o dan un to yn golygu cymaint i Anoon, 'Gallwn fyw gyda'n gilydd yn ddiogel. Mae wedi rhoi dewrder a gofaith i'm plant.'

Yng Ngholombia, mae cymaint â 5 miliwn o bobl wedi eu dadleoli oherwydd gwrthdaro a thrais. Tir yw'r achos pennaf, gyda grwpiau arfog yn gorfodi pobl trwy rym i adael eu tiroedd, er mwyn eu meddiannu ar gyfer y fasnach cyffuriau neu eu gwerthu i gwmmiau mawr. Ymhlith y rhai a effeithiwyd y mae teulu Edile, bachgen 9 oed, a welodd ei dad yn cael ei ladd, cyn iddo orfod ffoi gyda'i fam a'i fam-gu. Maen nhw erbyn hyn wedi cael cartref mewn cymuned newydd, Las Camelias, un o'r 'mannau dyn-garol' a sefydlwyd gan fudiad partner Cymorth Cristnogol, o fewn ardaloedd o wrthdaro. Mae'r manau hyn, a gaiff eu cydnabod yn swyddogol gan y Llys Iawnderau Dynol Rhyng-Americanaidd, yn cynnig amddiffyniad a diogelwch; a gwrthodir mynediad i unrhyw un sy'n cario arfau. Er nad yw ofnau'r teulu wedi diflannu'n llwyr, mae Las Camelias yn cynnig diogelwch, ynghyd â'r rhyddid i Edile i fod yn blentyn unwaith eto, 'Rwy'n hapus yma, Mae'n hwyl ac mae gennyf nifer o ffrindiau.'

Ymosodwyd ar bentref Zanan Bchuck yng ngogledd Irac sawl gwaith yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Yn wir, yn dilyn un cyrch bomio, fe ddychwelodd y bobl i ddinistr a oedd mor llwyr nes ei bod yn anodd adnabod safleoedd cartrefi unigol. Ond gwrthododd y gymuned gael ei threchu, a chyda help partner Cymorth Cristnogol mae'r bobl yn llwyddo i drawsffurfio Zanan Bchuck yn gymuned fyw a ffyniannus. Adeiladwyd cronfa ddŵr i gaslu dŵr glaw, a phrynwyd pysgod i'w rhoi ynddi, cafwyd tai gwydr i dyfu llyisiau gwahanol ac anifeiliaid i'w magu. Yn rhydd o ofn a gorthrwm mae'r pentref wedi tyfu mewn